# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ38211, a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, ar 21 Hydref 2004

**At Jonathan Morgan:**

Yn ystod cwestiynau'r Prif Weinidog ar 12 Hydref, gwnaethoch gyfeirio at yr adroddiad gan elusennau Barnardo's a Transport 2000 ynghylch plant sy'n cael eu taro i lawr gan geir mewn cymunedau difreintiedig ac ymrwymiad y Cynulliad i estyn parthau 20 mya i gymunedau o'r fath. Addewais y byddwn yn ysgrifennu atoch ar y mater hwn ac y byddwn yn cyfeirio at effaith unrhyw gyhoeddiadau ar y gyllideb gan Andrew Davies.

Mae ein hymrwymiad i'r parthau 20 mya yn para ac fe'i hategir gan y cyhoeddiadau diweddar ar y gyllideb datblygu economaidd a thrafnidiaeth, ynghyd ag ymrwymiadau 'Cymru: Gwlad Well' sy'n datgan yn glir: 'ehangu parthau 20 mya a llwybrau diogelach i'r ysgol'.

Mae'r rhaglen wario i wella diogelwch ar y ffyrdd gwerth tua £13 miliwn yn 2005-06 a 2006-07 ac yn codi i tua £15 miliwn yn 2007-08. Mae rhan helaeth o'r dyraniad hwnnw yn cael ei neilltuo i'r grant diogelwch ffyrdd lleol ac mae ein canllawiau i'r awdurdodau lleol yn nodi yn glir ein bod am weld rhagor o barthau a therfynau cyflymder 20 mya yn cael eu cyflwyno a'u hestyn. Mae'r parthau hyn yn bwysig iawn i lawer o gymunedau, yn enwedig o ran diogelwch plant.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ38187, a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ar 29 Hydref 2004

**At Mark Isherwood:**

Diolch yn fawr am eich llythyr ar 15 Hydref ynghylch y pryderon y cododd Barbara Roberts gyda chi ac yn arbennig ynghylch y ffaith nad oes gan y sector gwirfoddol gynrychiolaeth ar bartneriaeth diogelwch cymunedol Sir y Fflint. A fyddech cystal â derbyn y llythyr hwn hefyd fel ymateb i'r pwyntiau a godwyd gennych yn ystod cwestiynau'r Prif Weinidog ar 12 Hydref?

Fel y gwyddoch, ysgrifennais atoch ar y mater hwn ym mis Gorffennaf y llynedd. Er nad oedd gan sefydliadau gwirfoddol gynrychiolydd ar lefel weithredol ym mhartneriaeth Sir y Fflint, eglurais fy mod yn teimlo y byddai eu haelodaeth fel ymarferwyr gwerthfawr yn ategu eu cyfraniad teilwng at waith diogelwch cymunedol. Yr unig beth y gallaf ychwanegu at yr ateb hwnnw yw ei bod yn ymddangos bod y bartneriaeth diogelwch cymunedol wedi mynd o nerth i nerth ar ôl ailgyflunio'i strwythur a'i bod yn rhoi ar waith strategaeth diogelwch cymunedol effeithiol i bobl Sir y Fflint. Yn y pen draw, mae aelodaeth partneriaeth diogelwch cymunedol Sir y Fflint, boed hynny ar lefel strategol neu lefel ymarferwyr, yn fater i'w bennu'n lleol gan gyfeirio at y canllawiau statudol. Nid yw'n fater yr wyf am chwarae rhan uniongyrchol ynddo.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ38211, a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, ar 9 Tachwedd 2004

**At Ann Jones:**

Ysgrifennaf yn sgil y cwestiwn a godwyd gennych ynghylch y rhaglen selio tyllau yn y geg yn y Cyfarfod Llawn ar 12 Hydref.

Ers mis Tachwedd 2001, rydym wedi dyrannu arian o'r gronfa anghydraddoldebau iechyd ar gyfer rhaglen selio tyllau yn y geg sydd wedi'i thargedu at blant 6 i 8 oed mewn ardaloedd difreintiedig. Mae cysylltiad cryf rhwng amddifadedd economaidd-gymdeithasol a chlefyd deintyddol a phenderfynwyd y byddai'r fenter yn targedu'r ardaloedd sydd â'r angen mwyaf yn ôl Cymunedau'n Gyntaf, sef y 100 adran etholiadol â'r mynegai amddifadedd lluosog gwaethaf (WIMD, 2000). Er hynny, mae'r rhaglen selio tyllau yn y geg yn fater clinigol ac nid yw'n rhan ganolog o fenter Cymunedau'n Gyntaf.

Ar ôl ymgynghori â chynrychiolwyr y proffesiwn deintyddol yng Nghymru, daethom i'r casgliad y dylai'r gwasanaeth deintyddol cymunedol ddarparu'r rhaglen yn ysgolion yr ardaloedd hynny er mwyn sicrhau bod ei chwmpas mor eang â phosib a'i bod yn cael ei gweithredu yn gyflym. Neilltuir £0.5m y flwyddyn ar gyfer y rhaglen sydd bellach yn ei phedwaredd blwyddyn. I gychwyn, cafwyd bod 255 o ysgolion yn gymwys i gael eu cynnwys yn y rhaglen. Yn ddiweddar, rydym wedi ychwanegu rhagor o hyblygrwydd at y rhaglen a llunio rhestr o ysgolion eraill mewn ardaloedd difreintiedig y gall y Gwasanaethau Deintyddol Cymunedau eu cynnwys o dan y rhaglen.

Mae adroddiad interim wedi'i gwblhau ar y rhaglen ac mae'n cael ei gwerthuso ar hyn o bryd. Pan fyddwn wedi ystyried adroddiad nesaf Uned Gwybodaeth Iechyd y Geg Cymru byddwn yn trafod dyfodol y rhaglen gyda'r darparwyr a chyda'n cymheiriaid yn y gwasanaeth iechyd cyhoeddus cenedlaethol. Bydd modd i ni wneud penderfyniadau ar sail data cadarn a phwyso a mesur yn fanwl gostau a manteision estyn y cynllun.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ38187, a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ar 10 Tachwedd 2004**

**At Eleanor Burnham:**

Yn ystod cwestiynau'r Prif Weinidog ar 12 Hydref, gwnaethoch godi'r pwynt ei bod yn ymddangos bod prinder cyllid a phrinder cymorth gan yr awdurdodau lleol i'r sector gwirfoddol, a hynny yng nghyd-destun diogelwch cymunedol yng Nghymru. Gofynnodd y Prif Weinidog i mi ymchwilio i'ch sylwadau.

Darparodd y Cynulliad gymorth gwirfoddol i nifer o wahanol sefydliadau sy'n mynd i'r afael â thrais yn y cartref, trais rhywiol a throseddau ieuenctid. Mae'r sector gwirfoddol hefyd yn rhydd i wneud cais am gyfran o'r cyllid sylweddol a roddir i bartneriaethau diogelwch cymunedol lleol gan y Cynulliad a'r Swyddfa Gartref. Eleni, er enghraifft, bydd £3.5 miliwn yn dod o gronfa cymunedau diogelach y Cynulliad a bydd £2.8 miliwn o'r arian hwnnw yn cael ei roi i'r partneriaethau, ynghyd â £7.5 miliwn o ddwy brif rownd gyllido'r Swyddfa Gartref. Mae angen i sefydliadau gwirfoddol drafod â'r partneriaethau i gael cyfran o'r arian hwn os oes ganddynt brosiectau a fydd yn ategu gwaith partneriaeth lleol.

Rwy'n sicr y bydd y sector gwirfoddol yn parhau i wneud cyfraniad pwysig at ddiogelwch cymunedol yng Nghymru.